Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Oeddech chi'n gwybod?

Mae grantiau ar gael i helpu teuluoedd ar incwm isel brynu dillad a chyfarpar ysgol.

## Mae blynyddoedd ysgol newydd bellach yn gymwys ac mae meini prawf wedi'u hymestyn i gynnwys gliniaduron neu dabledi



Gall dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gwneud cais am y grant hwn os ydynt:

- Mewn dosbarth derbyn yn yr ysgol gynradd
- Cyfnodau allweddol, e.e. Cyfnod Allweddol 2, 3, 4(cynradd ac uwchradd).
- Yn yr ysgol gynradd ym mlynyddoedd ysgol 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 ac 11
- Mewn ysgol arbennig, canolfan adnoddau anghenion arbennig neu uned cyfeirio disgyblion ac maent yn 4,5,7,9,11,12,13,14 neu 15 oed
- Gall teuluoedd dim ond gwneud un cais ar gyfer un plentyn, unwaith ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

Bydd gan blant ysgolion cynradd ac uwchradd yr hawl i **£125** ar gyfer pob cais.

Gall plant ym Mlwyddyn 7 wneud cais am **£200** i helpu gyda chostau ychwanegol dechrau yn yr ysgol uwchradd.

Felly mae dosbarth derbyn a blynyddoedd **ysgol 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 ac 11** i gyd bellach yn gymwys.

Bydd y gronfa'n cynnwys gwisg ysgol a phecyn chwaraeon, offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored, ac offer ar gyfer gweithgareddau o fewn y cwricwlwm.

O fis Chwefror 2021 mae'r gronfa bellach yn **cynnwys prynu gliniadur neu dabled.**

**Sut i wneud cais**
Cysylltwch â'ch awdurdod lleol:
llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission